

Tasg 2

Pam mae Cymraeg yn bwysig?

1. Pam mae Cymraeg yn bwysig yn y swydd yma?
Gwylwch eto ac atebwch y cwestiwn yma.

Mae Cymraeg yn bwysig achos mae Rhys yn ...

-
-
-
-

2. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau grŵp arall.
3. Darllenwch yr hysbysebion ar y dudalen nesaf.


Ydy Cymraeg

- yn bwysig
- yn bwysig iawn yn y swyddi yma?

Dewiswch **bedair** (4) o'r swyddi a llenwch grid fel yr un yma yn eich llyfrau.

Swydd	Pwysig	Pwysig iawn	Rheswm
Cwmni teledu		✓	• Mae'r dyn / dynes camera'n ...

Geirfa	
swydd, swyddi	job, jobs
pwysig	important
yr un yma	this one



CWMNI TELEDU CYFFROUS

Yn eisiau

DYN / DYNES CAMERA

i weithio ar raglenni Cymraeg a Saesneg.
Bydd rhaid teithio o gwmpas Cymru i ffilmio pobl yn siarad a bydd rhaid ffilmio rhaglenni i ysgolion yng Nghymru hefyd.

SIOP TRIN GWALLT BELA

Yn eisiau

TRINIWR GWALLT

i drin gwallt ac i wneud gwaith swyddfa (e.e. taflenni, hysbysebion, ateb e-byst)

CANOLFAN HAMDDEN ABERSYTWYTH

Yn eisiau

HYFFORDDWR PERSONOL

i weithio 37 awr yr wythnos.

GWESTY'R GRAND, LLANELLI

Yn eisiau

DERBYNNYDD

Y swydd:

- Croesawu pobl
- Bwcio pobl i mewn
- Ateb cwestiynau
- Ateb y ffôn
- Siarad â'r cwsmeriaid

LLYFRGELL ABERTAWE

Yn eisiau

LLYFRGELLYDD

Y swydd:

- Gweithio wrth y ddesg
- Darllen storïau i grwpiau o blant
- Ateb y ffôn
- Ysgrifennu llythyrau ac e-byst
- Gwneud posteri

CWMNI PLYMARS PROFFESIYNOL

Yn eisiau

PLYMAR

i weithio yn ardal Y Drenewydd.

YSGOL GYNRADD BANC-Y-FFOS

Yn eisiau

ATHRO / ATHRAWES BLWYDDYN 4

YSBYTY ABERTAWE


Yn eisiau

NYRS

i weithio ar ward y plant.

Geirfa

trin	to style	plymar	plumber
triniwr	stylist	cynradd	primary
hyfforddwr	trainer	ysbyty	hospital
derbynnnydd	receptionist		
llyfrgellydd	librarian		



4. Cymharwch eich syniadau chi gyda'ch partner chi.
5. Mewn grŵp, meddyliwch am swyddi eraill ble mae Cymraeg yn bwysig. Gwnewch restr – cofiwch feddwl am resymau.

Swydd	Pam mae Cymraeg yn bwysig

6. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau grŵp arall.

